
CABINET Y CYNGOR 26/09/12

Yn bresennol – Y Cynghorydd Dyfed Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr - Peredur Jenkins, John Wynn Jones, W Gareth Roberts, Ioan Thomas, Paul Thomas, John Wyn Williams ac R H Wyn Williams

Hefyd yn bresennol - Harry Thomas (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid, Iwan Evans, (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Arwel E. Jones, (Uwch Reolwr Cyfeiriad Strategol), Janet Roberts, (Uwch Reolwr Cyflawni a Chefnogi), Darren Griffiths, (Rheolwr Cynllunio Strategol) ac Ioan Hughes, (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

YMDDIHEURIADAU : Y Cynghorwyr Siân Gwenllïan a Brian Jones.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod Cabinet y Cyngor a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf, 2012 fel rhai cywir.

3. CYDBWYLLGOR GWASANAETH EFFEITHIOLRWYDD A GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Sian Gwenllïan, Aelod Cabinet – Addysg a Phlant a Phobl Ifanc, gan Arweinydd y Cyngor

PENDERFYNWYD

- (1) Cadarnhau sefydlu'r Cydbwyllgor yn unol â'r adroddiad.
- (2) Penodi'r Cynghorydd Siân Gwenllïan, Aelod Cabinet dros Addysg a Phlant a Phobl Ifanc i gynrychioli'r Awdurdod ar y Cydbwyllgor.
- (3) Cymeradwyo cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig y Cydbwyllgor yn unol â'r canlynol:
 - (i) hyrwyddo cydweithio wrth gyflwyno'r Gwasanaeth trwy:
 - hwyluso gweithio mewn partneriaeth mewn modd adeiladol;
 - ymgysylltu â chyrrff allweddol a budd-ddeiliaid â diddordeb pan fo hynny'n briodol; a
 - chwblhau gweithgareddau cyffelyb eraill er mwyn hwyluso, neu sy'n arwain at gyflwyno'r Gwasanaeth yn llwyddiannus;
 - (ii) goruchwyllo rheolaeth y Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu a'i fod yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel yr adlewyrchir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyngasiantaethol ac yn y Cynlluniau Busnes a Chomisiynu Blynyddol a gytunwyd.
 - (iii) cymeradwyo'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;

- (iv) cymeradwyo'r cynllun busnes ar gyfer y Gwasanaeth yn flynyddol;
 - (v) monitro a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
 - (vi) cadarnhau ceisiadau am gyllid ychwanegol gan Gyngorau unigol;
 - (vii) cymeradwyo strwythur staffio'r Gwasanaeth;
 - (viii) penodi Prif Swyddog y Gwasanaeth;
 - (ix) penderfynu ar gamau gweithredu disgyblu yn erbyn y Prif Swyddog; a phan fo angen, penderfynu ar apeliadau, neu drefnu apeliadau, ar faterion Adnoddau Dynol.
- (4) Cadarnhau bod y materion a ganlyn wedi'u cadw'n ôl yn benodol i bob Cabinet unigol benderfynu arnynt:
- cymeradwyo trefniadau llywodraethu ar gyfer y Bartneriaeth rhwng cynghorau;
 - cynyddu'r gyllideb yn fwy na'r cyfraniad gan y cynghorau;
 - Caffael y gwiriad auarchwilio a sicrwydd angenrheidiol;
 - terfynu'r Bartneriaeth.

4. Y MESUR IECHYD MEDDWL (CYMRU) 2010

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd R.H.Wyn Williams, Aelod Cabinet - Gofal

PENDERFYNWYD

1. Cymeradwyo'r Cynllun Rhanbarthol o gydweithio rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r chwe chynhor unedol yng ngogledd Cymru i gyflwyno Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
2. Bod y gwariant ar y cynllun yn cael ei fonitro ac nad yw'r adran yn ymrwymo'r Cyngor i wariant ychwanegol.

5. GWAREDU TIR PANT YR EITHIN, HARLECH.

Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd John Wyn Williams, Aelod Cabinet - Cynllunio

PENDERFYNWYD

Cytuno i:

- werthu tir Pant yr Eithin, Harlech i Gymdeithas Tai Eryri am bris y farchnad;
- neilltuo'r derbyniad cyfalaf cyfan er mwyn gwneud cyfraniad i ddatblygu byngalos gyda chefnogaeth i bobl sydd ag anabledd dysgu ynghyd â darpariaeth o dai i'w rhentu neu brynu yn lleol ar y tir;
- ddirprwyo hawl i Bennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden, mewn ymgynghoriad gyda'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid, i drafod a chytuno termau cytundeb cyfreithiol i waredu'r safle i Gymdeithas Tai Eryri, rheolaeth yn y dyfodol a'r trefniadau ar gyfer sicrhau budd i'r Cyngor wrth wneud y cyfraniad ariannol.

6. PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2011/12

Cyflwynwyd adroddiad y Cyngorydd Dyfed Edwards – Arweinydd y Cyngor

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo adroddiad perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12, i sylw'r Cyngor Llawn gan ddirprwyo unrhyw newidiadau pellach i'w cymeradwyo gan yr Arweinydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Corfforaethol.

7. CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD 2012/13

Cyflwynwyd adroddiad y Cyngorydd Dyfed Edwards – Arweinydd y Cyngor

PENDERFYNWYD

Cymeradwyo Cynllun Strategol y Cyngor ar gyfer 2012/13 a'i gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 4 Hydref, 2012 er mwyn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2. 40pm.

CADEIRYDD